



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Brechlyn Difftheria, Tetanws, Pertwsis, Polio, Hib a Hepatitis B i fabanod a phlant



Mae'r daflen hon yn dweud wrthyich am y brechlyn DTaP/IPV/Hib/HepB, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel y "6 mewn 1" am ei fod yn amddiffyn rhag chwech o glefydau: diptheria, tetanws, pertwsis (y pas), polio, *Haemophilus influenzae* math b a hepatitis B (HepB).



Yn erbyn beth mae'r brechlyn yn amddiffyn?

Difftheria

Mae difftheria yn glefyd difrifol sydd fel arfer yn cychwyn gyda dolur gwddf ac sy'n gallu arwain at broblemau anadlu yn gyflym iawn. Mae'n gallu niweidio'r galon a'r system nerfol ac, mewn achosion difrifol, mae'n gallu lladd. Cyn i frechlyn difftheria gael ei gyflwyno yn y DU, roedd hyd at 70,000 o achosion o difftheria a thua 5,000 o farwolaethau y flwyddyn. Mae modd i difftheria gael ei drosglwyddo o'r naill berson i'r llall drwy gysylltiad agos.

Tetanws

Clefyd yw tetanws sy'n effeithio ar y system nerfol. Mae'n achosi gwingiadau (*spasms*) yn y cyhyrau a phroblemau anadlu ac mae'n gallu lladd. Caiff ei achosi pan fydd germau a geir mewn pridd a thail yn mynd i mewn i'r corff drwy friwiau neu losgiadau. Does dim modd trosglwyddo tetanws o'r naill berson i'r llall.

Pertwsis (y pas)

Clefyd yw pertwsis (y pas) sy'n gallu achosi pyliau hir o besychu a thagu, gan ei gwneud yn anodd anadlu. Gall barhau am hyd at 10 wythnos, a babanod dan flwydd oed sydd fwyaf mewn perygl. Mae'r clefyd yn un difrifol iawn ac mae'n gallu lladd.

Cyn i frechlyn y pas gael ei gyflwyno, roedd 120,000 o achosion yn cael eu cofnodi bob blwyddyn yn y DU ar gyfartaledd, a bu farw 92 o blant yn y flwyddyn cyn cyflwyno'r brechlyn. Mae'r pas fel arfer yn cael ei ledaenu drwy besychu a thisian.

Polio

Feirws yw polio sy'n medru ymosod ar y system nerfol a gall achosi parlys parhaol yn y cyhyrau. Os yw'n effeithio ar gyhyrau'r frest neu'r ymennydd, mae'n gallu lladd.

Cyn i frechlyn polio gael ei gyflwyno, roedd cymaint ag 8,000 o achosion o polio yn y Deyrnas Unedig mewn blynyddoedd epidemig. Caiff polio ei ledaenu yn bennaf drwy lyncu deunydd sy'n cynnwys y feirws.

Hepatitis B

Clefyd yw hepatitis B sy'n effeithio ar yr afu (iau) a gall arwain at glefyd difrifol ar yr afu. Mae tua 250 miliwn o bobl wedi'u heintio â hepatitis B yn y byd ar unrhyw adeg. Caiff tua 600 – 800 o achosion newydd eu cofnodi yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn. Mae tua 30 o achosion newydd yng Nghymru bob blwyddyn, ond bydd llawer mwy o

bobl yn cario'r feirws yn eu gwaed a'u hafu. Mae'r feirws hepatitis B i'w gael yng ngwaed a rhai o hylifau corfforol eraill pobl sydd wedi'u heintio.

Clefyd Hib (*Haemophilus influenzae* math b)

Haint yw Hib sy'n cael ei achosi gan y bacteria *Haemophilus influenzae* math b. Mae'n gallu arwain at nifer o wahanol fathau o salwch difrifol, megis gwenwyn gwaed (septicemia), haint ar yr ysgyfaint (niwmonia) a llid yr ymennydd (haint yn leinin yr ymennydd). Mae'r afiechydon a achosir gan Hib yn gallu lladd os na chânt eu trin yn gyflym.

Cyn i frechlyn Hib gael ei gyflwyno, roedd oddeutu 800 o achosion o Hib mewn plant bach bob blwyddyn yn y DU. Mae modd i'r bacteria gael ei ledaenu yn yr aer oddi wrth beswch a thisian pobl eraill. Nid yw'r brechlyn Hib yn amddiffyn ond yn erbyn y math o lid yr ymennydd a achosir gan facteria *Haemophilus influenzae* math b – nid yw'n amddiffyn yn erbyn unrhyw fathau eraill o lid yr ymennydd, ac felly mae'n dal yn angenrheidiol i chi wybod beth yw arwyddion a symptomau'r clefyd.

Gall symptomau ymddangos mewn unrhyw drefn. Efallai na fydd rhai yn ymddangos o gwbl. Peidiwch ag aros am frech os yw rhywun yn gwaethygu, cael cymorth ar unwaith.

Babanod a Phlant Bach



Gwres uchel,
dwylo
a thraed oer



Gwrthod
bwyd
a chwydu



Cwynfanllyd,
ddim yn
hoffi cael
eu trin



Cysglyd,
llipa, ddim
yn ymateb



Anadlu'n
gyflym
neu rochian



Croen gwelw
darnau coch,
Smotiau/brech.
Gweler y Prawf Gwydr



Cro'n
anarferol,
griddfan



Y ffontanél
(man meddal)
yn dynn ac wedi
cwyddo



Gwddw stiff,
ddim yn hoffi
goleuadau
llachar



Fftiau

Plant ac Oedolion



Gwres uchel,
dwylo a
thraed oer



Chwydu



Cysglyd,
anodd
deffro



Dryswch ac
ymddygiad
pigog



Poen difrifol
yn y
cyhyrau



Croen gwelw
darnau coch.
Smotiau/brech
Gweler y Prawf Gwydr



Cur pen
difrifol



Gwddw stiff



Ddim yn hoffi
goleuadau
llachar



Fftiau

Meningitis
NOW

Beth ddylwn i ei wneud os byddaf yn amau lliid yr ymennydd?

Os bydd rhywun yn sâl ac yn gwaethygu, peidiwch ag aros nes bydd brech, gall y symptomau ymddangos mewn unrhyw drefn ac ni fydd rhai'n ymddangos o gwbl. Gofynnwch am gymorth meddygol ar frys. Os nad ydych chi'n gallu cysylltu â'ch meddyg neu os ydych chi'n dal i bryderu wedi ichi gael cyngor, dilynwch eich greddf ac ewch i adran frys eich ysbyty agosaf.

Y prawf gwydr

Pwyswch ochr gwydr yfed yn gadarn yn erbyn y frech, fel y medrwch weld os yw'r frech yn pylu ac yn colli lliw dan bwysau. Os nad yw'n newid lliw ac os yw eich plentyn yn sâl, cysylltwch â'ch meddyg ar unwaith.



Pryd bydd y brechlyn DTaP/IPV/Hib/HepB ("6 mewn 1") yn cael ei gynnig?

Cynigir y brechlyn hwn i'ch plentyn pan fydd yn 2, 3 a 4 mis oed – tri dos i gyd.

Sut bydda i'n gwybod ei bod yn bryd i fy mhentyn gael ei imiwneiddio?

Anfonir apwyntiad i blentyn i ddod am ei frechiad 6 mewn 1 pan fydd wedi cyrraedd

oed priodol. Mae'r rhan fwyaf o feddygfeydd a chanolfannau iechyd yn rhedeg clinigau imiwneiddio neu glinigau babanod arbennig.

Beth sy'n digwydd yn yr apwyntiad?

Bydd y nyrs neu'r meddyg yn egluro pam mae angen y brechiadau ac yn ateb eich cwestiynau. Yn achos babanod, rhoddir y brechlyn drwy bigiad yn y glun. Mewn plant dros 12 mis oed, rhoddir pigiadau fel rheol yn rhan uchaf y fraich.

Fydd modd rhoi'r brechlyn os bydd fy mhlentyn yn sâl ar ddiwrnod yr apwyntiad?

Os mai salwch bach, heb dwymyn, sydd gan eich plentyn, megis annwyd, dylai gael ei imiwneiddio yn ôl yr arfer. Os yw eich plentyn yn sâl ac os oes ganddo dwymyn ar y diwrnod y mae i fod i gael ei imiwneiddio, gohiriwch y brechiad nes y bydd wedi gwella.

Oes yna unrhyw resymau eraill pam na ddylid rhoi'r brechlyn?

Prin iawn yw'r rhesymau pam na ellir imiwneiddio plant. Ni ddylid rhoi'r brechlyn hwn i blant sydd wedi cael adwaith difrifol (bygythiad i fywyd) i ddos blaenorol o'r brechlyn neu unrhyw gynhwysyn yn y brechlyn.

Os oes gan eich plentyn:

- anhwylder y gwaed (er enghraifft, hemoffilia, pan nad yw gwaed y plentyn y ceulo yn iawn), neu
- os yw wedi cael ffit nad yw'n gysylltiedig â thwymyn

siaradwch â'ch meddyg, nyrs y practis neu'r ymwelydd iechyd cyn i'ch plentyn gael unrhyw frechiad.

Cafodd fy mabi ei eni'n gynnar. Pryd dylai babanod a gafodd eu geni'n gynnar gael eu himiwneiddio?

Efallai y bydd babanod a gafodd eu geni'n gynnar mewn mwy o berygl o ddal haint. Dylent ddechrau eu brechlynnau ddau fis ar ôl iddynt gael eu geni, waeth pa mor fuan y ganwyd hwy.

Beth os byddaf yn colli'r apwyntiad?

Dylech ganslo apwyntiad ymlaen llaw os na fyddwch yn medru bod yno. Os byddwch yn colli'r apwyntiad neu os bydd rhaid i chi ohirio'r imiwneiddiad, gwnewch apwyntiad newydd cyn gynted ag y bo modd. Gellir dal i roi'r imiwneiddiad, ond bydd eich plentyn heb amddiffyniad yn hirach.

Cofiwch ei bod hi'n bwysig dal i fyny ar y rhan fwyaf o frechiadau a gollwyd. Os bydd eich plentyn wedi colli brechiad ac os yw'n hŷn na'r oed a argymhellir, siaradwch â'ch meddyg teulu, nyrs y practis neu'r ymwelydd iechyd.

A yw'r brechlyn yn achosi unrhyw sgil-ffeithiau?

Mae miliynau lawer o ddosiau o'r brechlyn wedi cael eu defnyddio ac mae ei record diogelwch yn dda iawn. Gall plant weithiau gael coes neu fraich boenus lle cafodd y pigiad ei roi. Efallai y bydd rhai yn datblygu lwmp bychan lle y cafodd y nodwydd ei rhoi i mewn; mae hyn yn normal

ac efallai y bydd yn para am rai wythnosau. Nid oes angen triniaeth ar gyfer hyn. Efallai hefyd y cânt dymheredd uwch (twymyn) dros 37.5°C, hwyrach y byddant yn ymddangos yn aflonydd ac efallai na fydd arnynt eisiau llawer o fwyd. Os oes gan eich plentyn wres uchel ac os yw'n ymddangos yn sâl, cadwch ef yn oer drwy:

- sicrhau nad oes ganddo ormod o haenau o ddillad neu flancedi drosto, a
- rhoi digon o ddiodydd oer iddo

Efallai y bydd dos o hylif paracetamol o'r cryfder cywir yn gymorth i ostwng tymheredd eich plentyn. Darllenwch y cyfarwyddiadau ar y botel yn ofalus iawn. Efallai y bydd angen i chi roi dos arall bedair neu chwe awr yn ddiweddarach.

Os byddwch yn poeni am eich plentyn ar ôl yr imiwneiddiad, dylech siarad â'ch ymwelydd iechyd, eich meddyg neu nyrs y practis neu ffonio Galw Iechyd Cymru ar 0845 4647 neu ymweld â www.nhsdirect.wales.nhs.uk

Mae modd i aelodau o'r cyhoedd roi gwybod am sgil-ffeithiau tybiedig brechlynnau a meddyginiaethau drwy gynllun y Cerdyn Melyn. Gellir gwneud hyn drwy ymweld â **yellowcard.mhra.gov.uk** neu drwy ffonio llinell gymorth y Cerdyn Melyn ar **0800 731 6789** (sydd ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, 10:00 – 14:00).

Oes raid i fy mhentyn gael ei imiwneiddio?

Yn y DU, gall rhieni benderfynu a ydyn nhw am i'w plant gael eu himiwneiddio ai peidio.

Argymhellir eu bod yn cael eu himiwneiddio gan fod hyn yn amddiffyn eich plentyn rhag clefydau difrifol – y rhan fwyaf ohonynt yn gallu lladd. Trwy'r byd erbyn hyn, mae llawer o blant yn cael eu hamddiffyn drwy frechiadau yn rheolaidd. Oherwydd hyn, mae'n bosibl y bydd rhai o glefydau mwyaf difrifol y byd yn diflannu cyn hir.

Ble gallaf i gael rhagor o wybodaeth?

Gellwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y brechlynnau a ddefnyddir, gan gynnwys cyhwysion brechlyn a'r sgil effeithiau posibl yn www.medicines.org.uk/emc/ drwy roi enw'r brechlyn yn y blwch chwilio ac edrych ar y daflen wybodaeth i gleifion (PIL). Y brechlyn a ddefnyddir ar hyn o bryd yw Infanrix hexa®.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os oes arnoch eisiau rhagor o wybodaeth, siaradwch â'ch meddyg neu nyrs neu ffoniwch Galw Iechyd Cymru ar 0845 4647 neu ymwelwch â www.galwiechydymru.wales.nhs.uk

I archebu rhagor o gopiâu o'r daflen hon, anfonwch neges e-bost i: health.info@wales.nhs.uk neu ffoniwch 029 2010 4650.

Cynhyrchir y daflen hon gan:
Is-adran Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru.



facebook.com



twitter.com